



**RHONDDA CYNON TAF**

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 1 Gorffennaf 2020 am 3.00pm

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R. Bevan	Y Cynghorydd H. Boggis
Y Cynghorydd J. Bonetto	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd J. Brencher	Y Cynghorydd A. Calvert
Y Cynghorydd G. Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A. Cox	Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J. Cullwick	Y Cynghorydd A Davies-Jones
Y Cynghorydd G. Davies	Y Cynghorydd J. Davies
Y Cynghorydd L. De Vet	Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J. Edwards	Y Cynghorydd J. Elliott
Y Cynghorydd S. Evans	Y Cynghorydd M. Forey
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd H. Fychan
Y Cynghorydd E. George	Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd E. Griffiths	Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd J. Harries	Y Cynghorydd G. Holmes
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P. Howe	Y Cynghorydd G. Hughes
Y Cynghorydd J. James	Y Cynghorydd P. Jarman
Y Cynghorydd G. Jones	Y Cynghorydd K Jones
Y Cynghorydd L Jones	Y Cynghorydd W. Jones
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd W. Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon	Y Cynghorydd A. Morgan
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd S. Morgans
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd D. Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd S. Pickering
Y Cynghorydd M Powell	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S. Rees-Owen	Y Cynghorydd S. Rees
Y Cynghorydd A Roberts	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd E. Stephens
Y Cynghorydd M Tegg	Y Cynghorydd G. Thomas
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd R. Turner
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd E Webster	Y Cynghorydd D. Williams
Y Cynghorydd J. Williams	Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd R Yeo	

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

### 153 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Tegg, C. Willis, M. Fidler Jones, S. Evans, L. Walker a G. D. Williams.

### 154 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

#### Eitem 3 – Ymateb y Cyngor i Covid-19

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar y 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2020-21, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher - "Rydw i'n Gyfarwyddwr ar yr YMCA."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan – "Cyn aelod o fwrdd y Muni ac aelod o fwrdd Artis."

#### Eitem 4 – Penderfyniadau Brys o Dan Swyddogaethau Gweithredol

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Rwy'n Ymddiriedolwr i Gyfeillion Parc Aberdâr."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees – "Rwy'n Ymddiriedolwr i Gyfeillion Parc Aberdâr."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones – "Rwy'n aelod o Gyfeillion Parc Aberdâr."

(**Noder:** Cafodd tri datganiad pellach o fuddiant personol eu gwneud nes ymlaen yn y cyfarfod gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Davies, S. Evans a R. Lewis (Cofnodion rhif 158 ac 160).

### 155 Cyflwyniadau

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)  
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)  
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp y Gynghrair)  
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Diamond (Grŵp yr Aelodau Annibynnol)  
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James (Grŵp y Ceidwadwyr)

**156 Munud o Dawelwch**

Cynhaliwyd Munud o Dawelwch er cof am y rheiny fu farw yn ystod cyfnod y clo.

**157 Atal Rheolau Sefydlog**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

**158 Rhaglen Waith y Cyngor wedi'i ddiwygio**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau gytuno ar Raglen Waith ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn 2019/20 (wedi'i hystyngiadau ar gyfer cyfnod penodol Gorffennaf-Medi 2020). Mae'r estyniad yn adlewyrchu'r newidiadau angenrheidiol yn dilyn gohirio Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor o Fai 2020 hyd at 16 Medi 2020.

Yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod cyfnodau swyddi presennol wedi'u hystyngiadau hyd at y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Medi. Pwysleisiodd fod angen i'r Aelodau fod yn hyblyg wrth weithio'n rhithwir, gan fod gofyn am ddefnyddio dulliau gwahanol sy'n golygu wynebu nifer o heriau unigryw, yn ogystal ag argaeledd cyfyngedig o ran adnoddau.

Cynigiodd Arweinydd yr Wrthblaid ddiwygio'r cynnig ym mhwynt 2.3 fel a ganlyn:-

2.3 "Bod Rhaglen Waith y Cyngor yn cael ei gytuno [ychwanegu] "***yn ddibynol ar gynnwys adroddiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf ar yr egwyddor bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dod yn bartner i Fenter Porth y Gorllewin. Bydd yn ddibynol hefyd ar gynnwys eitem lle y bydd Cadeirydd a Phrif Swyddog Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn mynychu'r cyfarfod rhithwir i roi diwedddariad ynglŷn â chynnydd materion yn ymwneud â Gwasanaethau Mamolaeth, Peditrig a Damweiniau ac Achosion Brys [diweddd]*** yn unol â'r rhesymau a nodwyd yn adran 4 yr adroddiad. Yn ddibynol ar gymeradwyo'r eitem, bydd rhaglenni gwaith y Pwyllgorau perthnasol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r estyniad o dri mis;

Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dod i Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn y dyfodol er mwyn ymgysylltu â'r Aelodau ar faterion gan gynnwys Gwasanaethau Mamolaeth, Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a phroblemau ehangach yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd. Atgoffodd Aelodau'r Cyngor hefyd fod papurau

cyfarfod Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gael i'w gweld ar y wefan, a bod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i sefydlu ar y cyd â'r deg Awdurdod Lleol, sy'n craffu ar benderfyniadau a llif gwaith Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn dilyn pleidlais Arweinwyr y Grwpiau **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r diwygiad i benderfyniad 2.3.

Yn dilyn tafod yr adroddiad a diwygio'r penderfyniad ym mhwynt 2.3, **PENDERFYNODD** Arweinwyr y Grwpiau:-

1. Cydnabod

y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal ar 16 Medi 2020, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 a phenderfyniad Llywydd y Cyngor;

2. Cydnabod parhau â chyfnodau swyddi a benodwyd gan y Cyngor a gytunwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (fel sydd wedi nodi ym mharagraff 6 yr adroddiad);

3. Cytuno ar Raglen Waith ddiwygiedig y Cyngor, yn ddibynnol ar gynnwys adroddiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf ar yr egwyddor bod Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dod yn bartner i Fenter Porth y Gorllewin. Bydd yn ddibynnol hefyd ar gynnwys eitem lle y bydd Cadeirydd a Phrif Swyddog Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn mynychu'r cyfarfod rhithwir i roi diweddariad ynglŷn â chynnydd materion yn ymwneud â Gwasanaethau Mamolaeth, Pediatrig a Damweiniau ac Achosion Brys yn unol â'r rhesymau a nodwyd yn adran 4 yr adroddiad. Yn ddibynnol ar gymeradwyo'r eitem, bydd rhaglenni gwaith y Pwyllgorau perthnasol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r estyniad o dri mis;

4. Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn diweddarau Rhaglen Waith y Cyngor ar ddiwedd yr estyniad o dri mis.

**(Noder:** Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Davies - "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac felly ni fyddaf yn pleidleisio ar y mater."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac felly ni fyddaf yn pleidleisio ar y mater."

## 159 Cyhoeddiadau

- Croesawodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan, benderfyniad diweddar Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i barhau â Gwasanaeth dan Arweiniad Ymgynghorydd 24 awr yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Nododd mai canlyniad cefnogaeth draws-bleidiol oedd y penderfyniad. Ychwanegodd bod nifer o bryderon penodol wedi cael eu codi mewn perthynas â throi'r adran achosion brys yn Uned Mân Anafiadau, sut byddai ysbytai eraill yn ymdopi gyda'r cynnydd yn nifer y

cleifion a sut y byddai materion cludo cleifion i ysbytai eraill yn cael ei reoli (yn enwedig os bydd ffyrdd mynydd y Rhondda ar gau yn ystod y gaeaf). Ychwanegodd yr Arweinydd fod yr ymateb unedig sydd ar waith ers 6 mlynedd wedi anfon neges gadarnhaol, ac wedi galluogi dadl gref yn erbyn cau'r uned.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman ei bod hi'n flwyddyn ers i Ysgol Gyfun Aberpennar wynebu profedigaeth yn dilyn marwolaeth un o'r disgyblion, sef Christopher Kapessa. Oherwydd hynny, dywedodd fod ei chyhoeddiad heddiw yn chwerw-felys, wrth iddi nodi y bydd Alysa Neads yn derbyn Gwobr Diana. Dyma'r wobwr uchaf ei pharch y mae modd i berson ifanc rhwng 9 a 25 oed ei derbyn am gyflawni gweithgarwch cymdeithasol neu waith dyngarol. Dim ond 189 o bobl ifanc ar draws 35 o wledydd sydd wedi ennill y wobwr hon, ac mae Alysa ymhlith 8 enillydd yng Nghymru. Hi yw'r person ifanc ieuengaf erioed i ennill y wobwr am ei gwaith caled a'i hymdrechion i godi arian yng nghymuned Penrhiw-ceibr. Dywedodd y Cynghorydd Jarman fod canolbwyntio ar y materion cywir, buddsoddi yn y materion cywir, a bod yn benderfynol, yn gallu gweddnewid cymuned. Nodwyd, i gydnabod y cyflawniadau, y byddai'r Maer yn anfon llythyr o longyfarch i Alysa.
- Atgyfnerthodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox â'r hyn a ddywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman, gan dalu teyrnged i wobwr glodwiw Alysa a'i chyfraniad i Benrhiw-ceibr.

## 160 Ymateb y Cyngor i COVID-19

Amlinellodd y Prif Weithredwr ymateb y Cyngor i COVID-19. Mae 16,000 o achosion wedi'u cadarnhau yn Rhondda Cynon Taf hyd yma, ac mae wedi achosi bron 300 o farwolaethau (sy'n cyfateb i 1% o'r boblogaeth) yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nododd ei bod hi wedi bod yn adeg anodd iawn i lawer o deuluoedd ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Yn rhan o'i ymateb i'r argyfwng cenedlaethol, darparodd y Cyngor gymorth sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac ymatebodd yn gyflym i'r amgylchiadau newidiol o fewn y Cyngor ei hun trwy gau swyddfeydd a darparu'r offer TG addas er mwyn galluogi staff i weithio gartref. Mae wedi darparu llety i bobl ddi-gartref, wedi dal ati i gasglu gwastraff, wedi sicrhau bod grantiau busnes yn cael eu talu, wedi darparu gofal plant brys mewn ysgolion, wedi rhoi arian i'r teuluoedd hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, wedi nodi 1,500 o drigolion sy'n gwarchod ac sy'n agored i niwed bob wythnos a rhoi cymorth iddyn nhw ar ffurf parseli bwyd, prydau yn y gymuned a gwasanaethau fel mynd â chŵn am dro.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r holl staff, yn enwedig y staff gofal cymdeithasol a gafodd eu contractio i weithio mewn Cartrefi Gofal a Chartrefi Preswyl, a ddarparodd lefel ychwanegol o ofal. Aeth hefyd ati i ganmol Gwasanaeth Caffael y Cyngor, sydd wedi sicrhau bod digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael drwy ddulliau gweithredu arloesol gyda busnesau lleol. Mae cynnyrch newydd wedi'i greu gyda chwmnïau gweithgynhyrchu lleol, sydd wedi meithrin cydnetheredd newydd ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddolenni i nifer o adroddiadau sy'n amlinellu sefyllfa'r Cyngor o ran Covid-19 ac sydd wedi'u trafod gan Gabinet y Cyngor, gan gyfeirio'n benodol at yr adroddiad sy'n amlinellu'r paratodau ar gyfer

ailagor cyflenwyr a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yng nghanol ein trefi, yn ogystal â sicrhau bod adeiladau'n ddiogel, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Cadarnhawyd y byddai'r Cabinet yn trafod adroddiadau pellach wrth i'r Cyfyngiadau Symud gael eu llacio.

Nododd y Prif Weithredwr fod monitro cyfradd yr haint wrth i gymunedau ddychwelyd i'r gwaith, ac wrth i ysgolion a cholegau ailagor, yn hollbwysig, a dywedodd fod y Cyngor yn chwarae rhan allweddol o ran rhaglen Orlhain Cysylltiadau - Profi, Orlhain a Diogelu Llywodraeth Cymru ym mhob rhan o ardal Cwm Taf Morgannwg. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn helpu Merthyr Tudful gyda'i achosion diweddar drwy gymryd camau i leihau'r perygl o drosglwyddo'r haint ymhellach. Yn rhan o'r gwaith adfer, mae'r Cyngor yn ystyried sut i ailagor gwasanaethau'n ddiogel drwy ymgorffori mesurau cadw pellter cymdeithasol a rhoi camau hylendid personol ar waith. Mae'r cynlluniau adfer wedi helpu i ailagor Canolfannau Ailgyrchu yn y Gymuned, mannau cyhoeddus, llyfrgelloedd (gwasanaethau dosbarthu a chasglu) ac ysgolion - rhoddodd hyn gyfle i bob disgybl 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' ar gyfer yr haf a mis Medi 2020. Clywodd yr Aelodau y byddai Cabinet y Cyngor yn trafod crynodeb o'r cynlluniau adfer ym mis Gorffennaf.

Mae'r feirws wedi effeithio ar nifer o ffyrdd y mae'r Cyngor yn darparu'i wasanaethau, ac wedi lleihau ei ôl-troed carbon. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd a chydabod y bydd llawer o drigolion yn dal i fod angen cymorth, gan nad oes brechiad ar gael eto.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod ymateb y Cyngor i'r pandemig wedi costio £4.5 miliwn y mis ar gyfartaledd, ac mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ariannu'r rhan fwyaf o'r costau yma. Bydd angen i'r Cyngor adolygu'i gyllideb ar gyfer 2020/21 ym mis Medi, a'i phennu eto. Mae busnesau lleol hefyd wedi profi effaith ariannol y feirws, yn enwedig y busnesau hynny yng nghanol ein trefi, sydd wedi'i chael hi'n anodd dal ati i wneud elw. Mae'r diwydiant lletygarwch a thwristiaeth wedi'u heffeithio'n sylweddol hefyd, yn enwedig busnesau cyflenwi bwyd a'r bobl sy'n gweithio yn y sector yma - y rhan fwyaf ohonyn nhw'n bobl ifainc. Bwriad y Cyngor yw rhoi cymorth i'r rheiny sy'n wynebu'r effaith fwyaf, megis pobl ifainc, drwy gydweithio â busnesau, Llywodraeth Cymru a phartneriaid. Bydd hefyd yn ymdrechu i benodi mwy na 100 o Raddedigion eleni.

I gloi, dywedodd Prif Weithredwr fod y misoedd diwethaf wedi bod yn heriol o ran ymateb i'r newidiadau, ond mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wneud ei orau dros drigolion a staff, yn ogystal â gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd fod angen cynnal y dull hyblyg a chyflym yma o weithio er mwyn helpu'r gymuned i ddod at ei hun, a chroesawodd unrhyw drafodaethau a syniadau ynghylch sicrhau hynny.

Cytunodd Arweinydd y Cyngor gyda'r hyn a ddywedodd y Prif Weithredwr, a rhoddodd ganmoliaeth i holl staff y Cyngor, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac sydd wedi bod yn rheoli sefyllfaoedd anodd iawn o safbwynt emosiynol. Oherwydd bod modd i staff weithio gartref, roedd modd iddyn nhw ailafael yn eu cyfrifoldebau. Er enghraifft, roedd modd i swyddogion cyllid ymdrin â darparu grantiau i fusnesau lleol, a chafodd hyn ei ganmol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach. Llwyddodd y staff o'r swyddfa gefn a'r rheng flaen i weithio'n gyflym er mwyn cadw busnesau ar agor a diogelu swyddi.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod y 300 o aelodau o staff a fu'n helpu staff gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau i drigolion agored i niwed a'r rheiny a

fu'n gwarchod. Roedd darparu'r gwasanaeth yma'n dasg aruthrol, a hynny ar fyr-rybudd. Diolchodd hefyd i'r mil a rhagor o wirfoddolwyr a fu'n cydweithio â'r Cyngor.

Roedd hi'n bwysig rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynghorwyr drwy gydol y cyfnod, a chafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'r negeseuon a anfonwyd ar ran y Prif Weithredwr a'r diweddariadau dyddiol a anfonwyd gan y Gwasanaethau i Gynghorwyr, yn ogystal â'r wybodaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGGA).

Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd a chynnal trafodaethau ag Arweinwyr eraill yng Nghymru ynglŷn â sut y mae modd i awdurdodau lleol gefnogi'r economi leol, yn dilyn niwed posibl i hyder unigolion yn y sector preifat. Cadarnhawyd bod llythyr wedi'i anfon i Drysorlys y Llywodraeth Ganolog ar ran pob Arweinydd yng Nghymru, a'i fod yn galw am ddatganoli cyfalaf i'r Rhanbarth. Mae rhaglen gyfalaf y Cyngor hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig i'r economi leol, gan ddarparu rhaglen waith werthfawr i gontractwyr lleol ym maes adeiladu a phriffyrdd.

Cyhoeddwyd nifer o becynnau cyllido, er enghraifft, cafodd bron £2 miliwn ei sicrhau er mwyn bwrw ymlaen â nifer o brosiectau o ran y rheilffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol, a derbyniwyd £3.1 miliwn ar gyfer isadeiledd a ddifrodwyd gan Storm Dennis. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau yngylch buddsoddiadau pellach mewn Tai Cymdeithasol wrthi'n cael eu cynnal gyda Darparwyr Tai Cymdeithasol, ac y byddai'r Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau cyfalaf.

I gloi, diolchodd yr Arweinydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

Canmolodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd P Jarman, staff y Cyngor am ddarparu gwasanaethau hanfodol yn brydlon yn ystod y cyfnod yma. Croesawodd hi'r cynnydd yng ngweithgarwch y fenter 'siopa'n lleol' o ran gwerthwyr bwyd mewn pentrefi a threfi, a'r defnydd o gwmnïau gweithgynhyrchu lleol, sy'n creu llawer o gyfleoedd newydd. Nododd y Cynghorydd Jarman ei phryderon ynghylch un cwmni gweithgynhyrchu lleol sy'n ymwneud â chreu diheintydd dwylo a fisorau, a'r cynnydd posibl o ran defnyddio plastigau.

Aeth y Cynghorydd Jarman ati i ganmol y fenter leol a'r defnydd o gwmnïau gweithgynhyrchu lleol, yn ogystal â'r ffaith bod nifer o raddedigion wedi'u cyflogi, gan nodi bod hwn yn ddechrau da i'r broses adfer ac yn fodd o adfywio'r economi leol cyn i'r DU adael yr UE ym mis Rhagfyr.

Yn ogystal â hynny, nododd y Cynghorydd Jarman y pwyntiau canlynol:-

- Efallai y bydd staff y Cyngor angen egwyl o weithio gartref:
- A oes modd darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y mae modd helpu cartrefi gofal i fod yn hyfyw o safbwynt ariannol?
- A oes modd cael diweddariad ynghylch a oes nifer uwch o blant yn cael eu derbyn i'r sector gofal yn ystod argyfwng Covid 19?
- Mae tipio anghyfreithlon bellach yn annerbyniol ac mae'r gymuned leol yn barod i enwi'r sawl sy'n euog o wneud hyn er mwyn codi cywilydd arnyn nhw.

Aeth y Cynghorwyr M Powell, M Diamond a J James ati i ganmol staff a gwirfoddolwyr y Cyngor am eu gwaith drwy gydol y cyfnod yma ac yn dilyn eu hadleoli, ac roedden nhw'n gefnogol o'r mesurau sydd ar waith i lacio'r

cyfyngiadau symud a rhoi hwb i'r economi leol.

Holodd y Cynghorydd Powell p'un a fyddai'r Ysbyty Maes yn Abercynon yn dal i fod ar agor rhag ofn y bydd ail don o'r Coronafeirws. Awgrymodd hefyd y dylai gwybodaeth sy'n codi yn ystod trafodaethau yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp, rhwng yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, gael ei rhannu ag aelodau eraill o'r Cyngor.

**(Nodwch:** Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis fuddiant personol - "Mae fy mhartner yn gweithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru")

Nododd y Cynghorydd Lewis ei fod e'n edrych ymlaen at ailafael yn y Pwyllgor ar Faterion yr Hinsawdd ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau ynghylch y pwyntiau canlynol, a chafwyd ymatebion gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr:

Y Sector Gofal Annibynnol - Mae pecyn gwerth £40 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi cartrefi gofal yn y sector annibynnol, ac mae'r Cyngor yn gweithio i dalu costau ychwanegol sydd ynghlwm â chostau staff asiantaeth a Chyfarpar Diogelu Personol, (mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn darparu cyfarpar diogelu personol am ddim i gartrefi gofal yn y sector annibynnol);

Angladdau - Mae cyfyngiadau wedi bod o ran nifer y bobl sy'n gallu mynd i angladdau. I ddechrau, dim ond 10 aelod o'r teulu oedd yn gallu cymryd rhan. Erbyn hyn mae'r nifer yma wed cynyddu i 15 aelod o'r teulu.

Coffa - Bydd y Cyngor yn ystyried ffyrdd o gydnabod gweithwyr allweddol y GIG a'r Awdurdod Lleol, yn ogystal â choffa'r rheiny a fu farw, pan mae'n briodol gwneud hynny.

Prif Adeiladau'r Cyngor - Yn ddiweddar, cafodd £14,000 ei gymeradwyo er mwyn bwrw ymlaen â gwaith dichonoldeb.

Llifogydd - Mae'r staff wedi dal ati i weithio ar hyn yn y cefndir, er gwaetha'r blaenoriaethau o ran Covid-19. Mae staff bellach yn gweithio gartref er mwyn sicrhau bod gwaith ar gynlluniau llifogydd yn mynd rhagddo, yn ogystal â threfnu ceisiadau ac astudiaethau dichonoldeb:-

- Mae'r cais ar gyfer Cwlfert Pentre wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd y gwaith yn dechrau o fewn 6-7 wythnos;
- Bydd y gwaith ym Mryn Ifor yn dechrau cyn bo hir hefyd;
- Mae cyllid gwerth £400,000 wedi'i gymeradwyo ar gyfer cynllun yng Nghwm-bach;
- Mae cyllid gwerth £400,000 ar gael ar gyfer Ysgol Park Lane yn dilyn difrod a achoswyd gan Storm Callum a Storm Dennis;
- Mae tua 20-25 o geisiadau'n cael eu hystyried/prosesu ar hyn o bryd;
- Mae cyllid gwerth £30,000 wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar er mwyn cynnal astudiaeth ynghylch llifogydd yn Nhreorci.

Llyfrgelloedd - Mae tair llyfrgell ar agor ar hyn o bryd ledled y Fwrdeistref Sirol, a'r bwriad yw ailagor tair arall dros yr wythnosau nesaf. Ar hyn o bryd,



mae modd i drigolion fanteisio ar y gwasanaeth cludo i'r cartref a'r gwasanaeth archebu a chasglu.

Tacsis - Mae pob trwydded gyfredol yn cael ei hadnewyddu, fodd bynnag, fydd y cyngor ddim yn prosesu unrhyw geisiadau newydd nes y bydd modd sicrhau asesiadau meddygol priodol.

Gwasanaethau Ar-lein - Mae rhagor o wasanaethau'n ailagor, a bydd modd i drigolion gael gwybodaeth dros y ffôn yn ogystal ag ar-lein. Serch hynny, cadarnhawyd na fyddai modd ailagor y canolfannau 'I Bob Un' oherwydd y cyfyngiadau cyfredol.

I gloi, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wrthi'n cydweithio a chwmni er mwyn gweld sut y mae modd defnyddio'r plastig sydd mewn poteli llefrith, fel bod modd iddyn nhw fod yn gwbl ddblastig. Dywedodd y byddai rhagor o fanylion ynghylch nifer y plant sy'n cael eu derbyn i'r sector gofal yn ystod argyfwng Covid-19 yn cael ei ddarparu ar ôl y cyfarfod. Ychwanegodd fod llawer iawn o brofion yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Brofi yn Abercynon, a bod y Cyngor yn mynd ati i gynnal profion rhagweithiol; mewn Cartrefi Gofal/Preswyl a busnesau sydd â risg uchel.

O ran gweithio hyblyg/gartref, dangosodd arolwg staff diweddar fod 83% o'r staff wedi cadarnhau eu bod nhw'n fodlon ar eu trefniadau gweithio gartref cyfredol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd yn y dyfodol fel bod staff yn derbyn cymorth wyneb-yn-wyneb a fydd yn atgyfnerthu'r trefniadau lles sydd ar waith eisoes, a hynny er mwyn sicrhau eu lles ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y materion canlynol:-

Llwybr Beicio - Un flaenoriaeth yw'r cais ar gyfer y llwybr beicio rhwng y Maerdy a Phont-y-gwaith, a gyflwynwyd eleni. Mae'r profion dichonoldeb o ran y strwythurau a'r pontydd wrthi'n cael eu cynnal, ac unwaith i'r gwaith ar y tirlithriad ddod i ben, bydd modd bwrw ymlaen â'r cynnydd o ran y llwybr beicio. Mae nifer o geisiadau teithio llesol wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gyda rhai yn ymwneud â Chwm Rhondda Fawr. Mae'r Cyngor yn disgwyl am ymatebion i'r ceisiadau yma, a bydd y gwaith yn dechrau mynd rhagddo yng Nghwm Rhondda Fawr, ac mewn ardaloedd eraill, yn dilyn cymeradwyaeth.

Tirlithriad - Dechreuodd y gwaith ar y tirlithriad yr wythnos yma (mae'r Cyngor yn talu'r gost o £2.5 miliwn). Cafodd nifer o gyfarfodydd lefel uchel eu cynnal rhwng Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, Llywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion eraill, ac mae hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Ni fyddai'r cynnydd yma wedi mynd rhagddo cystal heb ymroddiad a gwaith caled ein staff. Dechreuodd y gwaith yr wythnos yma, ac unwaith iddo ddod i ben, bydd modd dechrau ar y cam nesaf (4) o'r gwaith ar y mynydd.

## **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd yn hyn wrth ymateb i bandemig Covid 19;

2. Y caiff adroddiadau pellach eu cyflwyno ym mhob cyfarfod o'r Cyngor am y chwe mis nesaf wrth i Lywodraeth y du a Llywodraeth Cymru ddechrau llacio'r cyfyngiadau symud, ailagor gwasanaethau hanfodol a mannau cyhoeddus, a rhoi rhagor o ryddid i bobl symud yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## 161 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, drosolwg i'r Aelodau o'r Penderfyniadau Brys a wnaed gan Bwyllgor y Cabinet, yn unol ag adran 5 yr adroddiad, a'r Penderfyniadau Dirprwyedig gan Swyddogion Allweddol a wnaed y tu allan i Bwyllgor y Cabinet, fel yr amlinellwyd yn adran 6 yr adroddiad, ar gyfer Ionawr - Mehefin 2020.

Cafodd yr aelodau ddiweddariad o ran defnyddio Tŷ Trevithick i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystod pandemig Covid-19, a dywedwyd bod yr adeilad bellach dan ofal y Cyngor unwaith eto.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 162 Cyfarfodydd Rhithwir

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddiweddariad ynghylch cynnydd y Cyngor hyd yma o ran galluogi Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir.

Cafwyd trafodaethau gydag Arweinwyr Grwpiau, Cadeiryddion Pwyllgorau ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau ar 18 Mai 2020 er mwyn nodi consensws ynglŷn â'r dull gweithredu gorau. O ganlyniad i hyn, cafodd pwyllgorau'r Cabinet, Cynllunio a Datblygu a Throsolwg a Chraffu eu blaenoriaethu fel y cyfarfodydd cyntaf i gael eu cynnal ar-lein.

Bydd y cam nesaf yn blaenoriaethu'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc, ac wedyn y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles. Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi dull mwy cyffredinol ar waith yn y cyfamser. Cynigir i bwyllgorau eraill, er enghraifft Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, gael eu cynnal cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (AGM) er mwyn bodloni gofynion y Cyngor o ran adrodd yn ôl. Trwy drafodaethau parhaus gydag Arweinwyr Grwpiau, cynigir bod calendr llawn o bwyllgorau'n cael ei lunio yn dilyn y cyfarfod cyffredinol blynnyddol, a bydd yr angen parhaus am faterion hanfodol yn sail i unrhyw galendr yn y dyfodol.

Yn dilyn nifer o ymholiadau, eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, y byddai cyfarfod rhithwir o'r Pwyllgor Trwyddedu hefyd yn cael ei gynnal maes o law. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r saib ym mis Awst yn dal i fynd rhagddo, er y byddai'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu'n dal i gwrdd yn ystod yr egwyl.

### **PENDERFYNWYD:**

1. Cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyfarfodydd rhithwir;
2. Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd rhithwir, fel sydd wedi'i nodi yn yr

adroddiad;

3. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddarparu diweddariadau cyson ynglŷn â chyfarfodydd rhithwir y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm**

**Y Cyngorydd S Powderhill  
Cadeirydd**